**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Deputy Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1023
Ein cyf/Our ref HB/00583/20

Janet Finch-Saunders MS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

24 Medi 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Medi ynghylch ailgylchu mewn lleoliadau addysg yng Nghymru. Ein nod yw symud at economi gylchol yng Nghymru, lle'r ydym yn ceisio osgoi gwastraff ac yn defnyddio pethau gyhyd â phosibl. Mae'n rhan bwysig o'r camau gweithredu sydd eu hangen yng nghyd-destun newid hinsawdd ac yn cyflwyno llawer o gyfleoedd newydd fel rhan o'r symudiad at economi carbon isel.

Fel Llywodraeth, rydym yn gweithio i ddefnyddio'r dull sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn i ailgylchu gwastraff cartref yng Nghymru ar gyfer gwastraff annomestig, gan gynnwys y deunydd a gynhyrchir mewn ysgolion. Y nod yw ailgylchu mwy o ddeunyddiau o fusnesau a sefydliadau annomestig eraill, nid yn unig i sicrhau budd amgylcheddol allweddol ond hefyd i wella ansawdd y deunyddiau sydd ar gael ac i sicrhau nad yw'r deunyddiau sy'n gallu cael eu hailgylchu yn cael eu gwastraffu.

Er mwyn cefnogi ysgolion a chyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus i baratoi, lansiwyd Cronfa'r Economi Gylchol werth £6.5miliwn ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff a ariennir yn gyhoeddus ochr yn ochr ag ymgynghoriad ar Strategaeth yr Economi Gylchol, Mwy nag Ailgylchu, ym mis Rhagfyr 2019 i gefnogi hyn a chamau eraill o fewn y strategaeth. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad hwn i'w gweld ar-lein yn [https://llyw.cymru/strategaeth-economi-gylchol](https://llyw.cymru/strategaeth-economi-gylchol) .

Mae grantiau hyd at £500,000 wedi'u cynnig i gydnabod pwysigrwydd cefnogi cyrff a ariennir yn gyhoeddus megis ysgolion a phrifysgolion i addasu eu prosesau ac i drosglwyddo i economi gylchol er mwyn ysgogi mwy o ailgylchu a datgarboneiddio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ystod y cyntaf o ddwy rownd, daeth 82 o geisiadau i law a oedd yn gyfanswm o £12miliwn ac a oedd yn cynrychioli amrywiaeth o brosiectau gan ystod eang o sefydliadau gan gynnwys awdurdodau lleol, prifysgolion, ysgolion, colegau a'r GIG. Mae £3.7miliwn wedi'i ddyrannu hyd yma i 34 o brosiectau. Mae cyfanswm o 91 o geisiadau wedi dod i law ar gyfer ail rownd Cronfa'r Economi Gylchol, gan gynnwys ceisiadau oddi wrth sawl ysgol a phrifysgol. Mae'r manteision a wireddwyd ar draws y 34 o brosiectau a gefnogwyd hyd yma yn cynnwys; cyfraddau ailgylchu gwell; deunydd eildro o ansawdd gwell; llai o blastigion untro; arbedion effeithlonrwydd refeniw ar gyfer awdurdodau lleol; a llai o symudiadau gan gerbydau sy'n arwain at lai o allyriadau carbon a llygryddion.

Mae'r ddeiseb yn hoelio sylw ar gostau ailgylchu a'r mannau hynny lle y mae llai o gostau. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â llywodraethau eraill yn y DU i gyflwyno Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR). Mae'r Cynlluniau hyn yn sicrhau bod cynhyrchwyr yn ysgwyddo costau gwaredu'r cynhyrchion y maen nhw'n eu rhoi ar y farchnad. Mae hyn yn unol â'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'.

Bydd y cynllun yn gwneud cynhyrchwyr sy'n gosod pecynnau ar y farchnad yn gyfrifol am dalu'r costau net llawn sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff ar ôl i'r pecynnau gael eu defnyddio.

Bydd hyn yn talu am gostau casglu a thrin pecynnau a chostau clirio pecynnau sydd wedi'u taflu'n sbwriel neu eu tipio'n anghyfreithlon. Yn ogystal â hyn, bydd y ffioedd sy'n cael eu talu gan gynhyrchwyr yn cael eu llunio i'w hysgogi i ddylunio pecynnau sy'n hawdd eu hailgylchu. Ar hyn o bryd yn y DU, amcangyfrifir bod cynhyrchwyr yn talu tua 10% o'r costau cyffredinol sy'n gysylltiedig ag ailgylchu eu pecynnau. Bydd cynigion EPR yn newid hyn i 100% ac mae ymgynghoriad ar ddyluniad manwl y cynllun wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Yn gywir,

**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government